Cronfa Loteri Fawr

Y Gronfa Cyfleoedd Newydd
Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon
2003/2004



	Awst 2004
Côd	
	© Cronfa Loteri Fawr, 2004
Dylunio	Graphicsi.com
Argraffu	Belmont Press
Copïau	Gellir cael rhagor o gopïau trwy ffonio 0845 1 10 20 30 a dyfynnu'r cyfeirnodau uchod Neu wrth ebostio: ymholiadau.cymru@cronfaloterifawr.org.uk Ffôn testun: 0845 0390204 8 y bore hyd 6 y nos Llun i Gwener
	Hefyd ar gael ar eich cais mewn Braille, casét sain, yn Saesneg ar ddisg mewn print bras ac ieithoedd cymunedol
Rydym yn poeni am yr amgylchedd	Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn ceisio lleihau ei heffaith negyddol ar yr amgylchedd ac mae'n defnyddio adnoddau gwirioneddol gynaliadwy yn unig
Ein hymrwymiad i gyfleoedd cyfartal	Mae'r Gronfa Loteri Fawr wedi ymroi i werthfawrogi amrywiaeth a hyrwyddo cyfle cyfartal, fel dyfarnwr grantiau a chyflogwr. Nod y Gronfa Loteri Fawr yw gweithredu'n gynhwysol i sicrhau fod ymgeiswyr a derbynwyr grantiau, budd-ddeiliaid, ymgeiswyr am swyddi a'n staff yn cael eu trin yn deg. Mae pob aelod o'n staff ac aelodau'r Bwrdd yn gyfrifol am gynnal a gweithredu ein polisi cydraddoldeb.
	Cronfa Loteri Fawr yw'r enw a ddefnyddir gan y Gronfa Cyfleoedd Newydd a Bwrdd Elusennau'r Loteri Genedlaethol (a oedd yn dosbarthu grantiau dan enw'r Gronfa Gymunedol) wrth weithredu ar y cyd

Yn dyfarnu arian
Y Loteri Genedlaethol

Awarding funds from
The National Lottery®

Adran 9
Cyfrifon blynyddol

Cyfrifon Blynyddol y Gronfa Cyfleoedd Newydd ar gyfer y Flwyddyn Ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2004

Rhagair i'r Cyfrifon

Sefydlwyd y Gronfa Cyfleoedd Newydd fel Dosbarthwr y Loteri yn sgil Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1998 i roi grantiau i brosiectau addysg, iechyd ac amgylcheddol dan gynlluniau a ddisgrifir gan y Llywodraeth. Mae'r Gronfa Cyfleoedd Newydd yn gorff cyhoeddus anadrannol sy'n gweithredu ledled y DU yn unol â'r Datganiad Rheoli a'r Cyfarwyddiadau Ariannol a Pholisi a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

Penodir y Corff Rheoli o 12 aelod a Chadeirydd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Ceir manylion am Aelodau'r Bwrdd mewn rhan arall o'r cyhoeddiad hwn. Mae pob aelod o'r Bwrdd wedi gwasanaethu am y flwyddyn gyfan a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2004.

Fis Chwefror 2003, gofynnodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon am i'r Gronfa Gymunedol (enw gweithredol Bwrdd Elusennol y Loteri Genedlaethol) a'r Gronfa Cyfleoedd Newydd ddod at ei gilydd i greu dosbarthwr loteri newydd, gan adeiladu ar gryfder y ddau gorff sy'n bodoli eisoes. Fis Tachwedd 2003, penodwyd Stephen Dunmore yn Brif Weithredwr y ddau gorff a dechreuodd roi tîm rheoli iau at ei gilydd i arwain y dosbarthwr newydd. .

Canlyniadau'r flwyddyn

Gwnaeth y Gronfa Cyfleoedd Newydd golled o £165 miliwn (2002 - £227 miliwn) am y flwyddyn. Mae gan y Gronfa Cyfleoedd Newydd ddiffyg yn y cronfeydd cadw wrth gefn o £353 miliwn (2002 - £189 miliwn). Mae'r diffyg hwn yn cynyddu i £406 miliwn os derbynnir yr holl ymrwymiadau meddal ar 31 Mawrth 2004 gan yr ymgeiswyr am grant. Cymeradwywyd y sefyllfa ariannol hon gan Fwrdd y Gronfa Cyfleoedd Newydd a'i chymeradwyo gan yr Adran Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ar ôl rhoi ystyriaeth i ofynion llif arian y dyfarniadau grant, gan fod nifer ohonynt ar gyfer ariannu prosiectau dros dair i bum mlynedd. Nodir y rhagamcaniadau llif arian yn Nodyn 17 o'r cyfrifon.

Yn unol â'i pholisi, mae balans y Gronfa Cyfleoedd Newydd yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol wedi parhau i ddirywio o £878 miliwn ar ddechrau'r flwyddyn ariannol i £737 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn. Balans targed Cronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol yw £240 miliwn (gweler nodyn 1.3).

Adran 9

Adolygiad o'r gweithgareddau a datblygiadau yn y dyfodol

Yn ystod 2003, parhaodd y Gronfa Cyfleoedd Newydd i wneud dyfarniadau, talu grantiau a monitro derbynwyr y grantiau, yn unol ag amodau a thelerau'r grant. Derbyniwyd Cyfarwyddiadau Polisi yn darparu cyllid ar gyfer cyfleusterau chwaraeon cymunedol fel rhan o'r rhaglen Cyfleoedd Newydd ar gyfer AG a Chwaraeon Ysgol. Lansiodd y Gronfa raglenni hefyd i gefnogi prosiectau sy'n cofio ac yn coffáu digwyddiadau'r Ail Ryfel Byd, a chyfleoedd i genedlaethau newydd ddysgu o brofiadau'r cenedlaethau a fu o'u blaen.

Mae'r dyddiad ymgeisio ar gyfer nifer o raglenni'r gronfa wedi mynd heibio yn awr ac mae'r holl arian wedi ei glustnodi. Ceir manylion pellach yn Adran 3 o'r Adroddiad Blynyddol.

Lle bo modd, mae'r Gronfa Cyfleoedd Newydd wedi gwneud y defnydd gorau o gyrff priodol ar gyfer cyflwyno gwasanaethau penodol drwy ddefnyddio'r grym dirprwyo a ddarparwyd gan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1998. Mae nifer o raglenni grant yn cael eu dirprwyo i Bartneriaid dyfarnu. Rhestrir y cynlluniau hyn ar dudalen 55 o'r cyfrifon hyn. Mae'r Gronfa Gymunedol yn asesu ac yn rheoli'r rhaglen Gofal Plant y Tu Allan i Oriau Ysgol a'r rhaglen Gofal Plant newydd. Mae 'Highlands and Islands Enterprise' yn rheoli rhaglen Cronfa Dir yr Alban. Er mwyn cyflwyno'r rhaglen grantiau bychain, mae'r Gronfa Cyfleoedd Newydd wedi ymuno â'r cynlluniau Arian i Bawb a weinyddir gan y Gronfa Gymunedol yn Lloegr, Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Yn ystod y flwyddyn, mae'r Gronfa Cyfleoedd Newydd wedi mynd ati i recriwtio'n agored 137 (2002 - 71) o staff ac mae wedi darparu hyfforddiant i sicrhau bod y staff hyn i gyd yn deall beth yw cylch gorchwyl a gweithrediadau'r Gronfa.

Yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf bydd y Gronfa Cyfleoedd Newydd, sy'n gweithredu fel y Gronfa Loteri Fawr, yn parhau i gyflwyno cynlluniau presennol y Gronfa. Nodir y datblygiadau sydd i ddod ar gyfer y Gronfa Loteri Fawr yn rhagair y Cadeirydd i'r adroddiad blynyddol.

Asedau sefydlog

Nodir y symudiadau o ran yr asedau sefydlog yn ystod y flwyddyn yn Nodyn 8 y cyfrifon. Yn ystod y flwyddyn, roedd yr ychwanegiadau a wnaed i'r asedau sefydlog yn werth £0.5 miliwn (2002 - £1.0 miliwn), a oedd yn gysylltiedig â datblygu TG.

Digwyddiadau ar ôl y fantolen

Ni fu unrhyw ddigwyddiadau arwyddocaol a gâi effaith ariannol ar y cyfrifon blynyddol hyn rhwng 31 Mawrth 2004 ac arwyddo'r datganiadau ariannol hyn. Ar 1 Mehefin 2004, lansiwyd y Gronfa Loteri Fawr gyda Chadeirydd a Bwrdd newydd o 17 o aelodau. Yr enw a ddefnyddir gan y Gronfa Cyfleoedd Newydd a'r Gronfa Gymunedol ar gyfer gweithredu ar y cyd yw y Gronfa Loteri Fawr.

Gweithwyr, cyfleoedd cyfartal ac ymgynghori

Fel cyflogwr, mae'r Gronfa Cyfleoedd Newydd yn cadw at y ddeddfwriaeth cyfleoedd cyfartal. Disgrifir hyn ymhellach yn yr Adroddiad Blynyddol.

Seiliwyd y trefniadau ar gyfer y cyflog a'r amodau ar yr arfer orau yn y sector cyhoeddus ac mae'r Gronfa Cyfleoedd Newydd wedi sefydlu amrywiaeth o bolisïau cyflogaeth sy'n dangos ei hymrwymiad i fod yn gyflogwr teg. Mae'r Bwrdd yn gwerthfawrogi pwysigrwydd hyfforddi a datblygu staff a sefydlwyd trefniadau cynhwysfawr ar gyfer hynny. Er mwyn annog cyfathrebu a pherthnasoedd da rhwng y Bwrdd, y rheolwyr a'r staff ar bob lefel cydnabuwyd yr undeb llafur 'Prospect'.

Mae natur gweithrediadau'r Gronfa Cyfleoedd Newydd yn golygu bod nifer o staff yn gweithio'n agos gyda'r tîm o Uwch-Reolwyr a'r Bwrdd, er enghraifft, drwy ddatblygu a gwerthuso rhaglenni. Mae llawer o aelodau o staff yn mynychu cyfarfodydd y Bwrdd ac mae hynny'n eu galluogi i fod yn ymwybodol o'r ffordd o feddwl am ddatblygiad y Gronfa Cyfleoedd Newydd a'i gweithrediadau. Hefyd, ymgynghorir â'r staff ynghylch y cynllun corfforaethol a'r adolygiad o'r cynllun strategol. Mae uwch-reolwyr y Gronfa Cyfleoedd Newydd, drwy gyfrwng cyfarfodydd Grŵp wedi eu rhaeadru a'r ffaith ei bod yn hawdd troi atynt, yn sicrhau bod materion sy'n peri pryder i'r staff yn cael eu trafod yn ddi-rwystr.

Datganiad o arfer a pholisi talu

Nod y Gronfa Cyfleoedd Newydd yw talu ei holl gredydwyr o fewn 30 diwrnod o dderbyn anfoneb, oni fo telerau ac amodau talu eraill wedi'u trefnu. Mae hyn yn unol â'r Canllaw Arfer Talu Gwell. Yn ystod y flwyddyn dan sylw, talwyd 94 y cant (2002 - 93 y cant) o'r holl gredydwyr o fewn deng niwrnod ar hugain i dderbyn anfoneb.

Yr Ewro

Mae'r Gronfa Cyfleoedd Newydd wedi asesu effaith yr Ewro ar ei weithrediadau. Nid oes disgwyl i gyflwyno'r Ewro gael effaith sylfaenol ar weithrediadau'r Gronfa Cyfleoedd Newydd na'i pherthynas gyda'r cwsmeriaid a'r cyflenwyr.

Archwilwyr

Dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1998, mae'n ofynnol i'r Gronfa Cyfleoedd Newydd sicrhau bod ei chyfrifon yn cael eu harchwilio a'u hardystio gan y Prif Reolwr a'r Archwilydd Cyffredinol. Felly, mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn cynnal archwiliad allanol o'r Gronfa Cyfleoedd Newydd. Yn ystod y flwyddyn ariannol hon, penderfynodd y Gronfa Cyfleoedd Newydd y byddai'n dyfarnu contract i 'PricewaterhouseCoopers' i ddarparu'r gwasanaethau archwilio mewnol.



Stephen Dunmore
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifo y Gronfa Cyfleoedd Newydd
11 Hydref 2004

Syr Clive Booth
Cadeirydd y Gronfa Cyfleoedd Newydd

Adran 9

Datganiad o Gyfrifoldebau'r Bwrdd a'r Prif weithredwr

Dan Adran 35(3) Deddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993, (fel y diwygiwyd gan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1998), mae'n ofynnol i'r Gronfa Cyfleoedd Newydd baratoi datganiad o'r cyfrifon ar gyfer y cyfnod ariannol ar ffurf ac ar sail a nodir gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

Caiff y cyfrifon blynyddol eu paratoi ar sail groniadol ac mae'n rhaid iddynt gyfleu amgylchiadau'r Gronfa Cyfleoedd Newydd ar ddiwedd y flwyddyn, a'i hincwm a'i gwariant a'i llif arian ar gyfer y flwyddyn ariannol, mewn ffordd gywir a theg.

Wrth baratoi'r cyfrifon, rhaid i Aelodau'r Bwrdd:

- Ddilyn y cyfarwyddyd cyfrifon a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol, gan gynnwys y gofynion cyfrifo a datgelu perthnasol, a defnyddio polisïau cyfrifo addas yn gyson
- Ffurfio barn ac amcangyfrifon rhesymol
- Datgan a ddilynwyd safonau cyfrifo perthnasol a datgelu ac egluro unrhyw achosion o wyro pwysig yn y cyfrifon blynyddol
- Paratoi'r cyfrifon blynyddol ar sail barhaus, oni bai nad yw hi'n addas tybio y bydd y Gronfa Cyfleoedd Newydd yn parhau i fodoli.

Mae Swyddog Cyfrifo'r Adran Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi dynodi Prif Weithredwr y Gronfa Cyfleoedd Newydd fel Swyddog Cyfrifo'r Gronfa Cyfleoedd Newydd. Nodir cyfrifoldebau perthnasol y Swyddog Cyfrifo, yn cynnwys y cyfrifoldeb dros addasrwydd a chysondeb arian cyhoeddus ac am gadw cofnodion cywir, ym memorandwm Swyddogion Cyfrifo Cyhoeddus y Cyrff Anadrannol a baratowyd gan y Trysorlys a'i gyhoeddi yn 'Government Accounting', ac yn y Cyfarwyddiadau Ariannol a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon dan Adran 26(3) o Ddeddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993.

Cyfrifoldebau wedi'u dirprwyo

Fel y nodwyd yn y Rhagair i'r Cyfrifon, mae'r Gronfa Cyfleoedd Newydd, lle bo modd, wedi ceisio defnyddio'r pwerau dirprwyo a mynnu a ddarparwyd gan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1998. O ganlyniad i hyn, gallai eraill fod yn gyfrifol am elfennau penodol o'r rhaglenni.

Mae gan y Gronfa Cyfleoedd Newydd y cytundebau fframwaith a ganlyn yn eu lle.

- Rhwng y Gronfa Cyfleoedd Newydd a'r Adran Iechyd, mewn perthynas â'r Rhaglen Offer Canser a'r Rhaglen Offer Diagnostig Afiechyd Coronaidd y Galon yn Lloegr sy'n datgan y meysydd y mae Swyddog Cyfrifo'r Adran Iechyd yn gyfrifol amdanynt, sef:
  - Y broses o asesu angen
  - Y broses o ofyn am geisiadau
  - Yr argymhellion a wneir i Fwrdd y Gronfa Cyfleoedd Newydd am offer (a gwaith adeiladu cysylltiedig o dan y rhaglen Offer Canser)
  - Y gwaith o sefydlu, rheoli a monitro cytundebau canolog er mwyn gallu caffael offer mewn ffordd effeithlon (neu gytundebau unigol i alluogi gwaith adeiladu cysylltiedig) oddi mewn i'r gyllideb a gymeradwywyd

.1 Rhwng y Gronfa Cyfleoedd Newydd a'r Adran Iechyd mewn perthynas â'r rhaglen beilot Ffrwythau mewn Ysgolion sy'n datgan y meysydd y mae Swyddog Cyfrifo'r Adran Iechyd yn gyfrifol amdanynt, sef:

- Y broses o asesu angen
- Y broses o ofyn am geisiadau
- Yr argymhellion a wneir i Fwrdd y Gronfa Cyfleoedd Newydd am ddyfarniadau grant
- Y gwaith o sefydlu, rheoli a monitro cytundebau canolog er mwyn gallu caffael ffrwythau mewn ffordd effeithlon o fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd

1 Rhwng y Gronfa Cyfleoedd Newydd a'r Adran Addysg a Sgiliau mewn perthynas â'r rhaglen Adeiladu Meithrinfeydd Cymunedol yn Lloegr sy'n datgan y meysydd y mae Swyddog Cyfrifo'r Adran Addysg a Sgiliau'n gyfrifol amdanynt, sef:

- Cymeradwyo ceisiadau am arian i'r Partneriaethau Gofal Plant a Datblygiad Blynyddoedd Cynnar, yn cynnwys dilysrwydd y cyrff cymeradwy, a ddarperir i'r Gronfa Cyfleoedd Newydd
- Barn ynghylch cynaliadwyedd y ceisiadau a asesir yn ganolog gan yr Adran Addysg a Sgiliau.

1 Rhwng y Gronfa Cyfleoedd Newydd, 'Sport England', Cyngor y Celfyddydau yn Lloegr, yr Adran Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a'r Adran Addysg a Chyflogaeth, sy'n datgan y trefniadau atebolrwydd ar gyfer pob un o'r Swyddogion Cyfrifo mewn perthynas â'r rhaglen Mannau ar gyfer Chwaraeon a'r Celfyddydau. Dan y Cytundeb hwn, mae Swyddog Cyfrifo'r Gronfa Cyfleoedd Newydd yn gyfrifol am:

- Sicrhau bod arian y loteri a ddosberthir gan y Gronfa Cyfleoedd Newydd ar gyfer y rhaglen hon yn cael ei ddosbarthu'n unol â phwerau cyfreithiol y Gronfa Cyfleoedd Newydd
- Sicrhau defnydd darbodus, effeithlon ac effeithiol o arian y Loteri a ddosberthir gan y Gronfa Cyfleoedd Newydd ar gyfer y rhaglen hon
- Ei fodloni ei hun bod y systemau a ddefnyddir ar gyfer gweithredu'r rhaglen yn gadarn ac yn addas i'w pwrpas
- Cytuno ar y mecanwaith ar gyfer neilltuo costau gweinyddol y rhaglen rhwng y Cyrff Loteri sy'n cymryd rhan

Mae'r Gronfa Cyfleoedd Newydd wedi defnyddio'r pwerau a ddarparwyd gan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1998 i ddirprwyo i bartneriaid dyfarnu'r cynlluniau grant a ganlyn:

Fel rhan o'r cynllun Meysydd Glas a Chymunedau Cynaliadwy:

1 Barnardo's – Better Play

1 BTCV – People's Places

1 Countryside Agency – Doorstep Greens

1 English Nature - Wildspace!

1 Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Natur – 'SEED'

1 'Scottish Natural Heritage' a 'Forward Scotland' – 'Fresh Futures'

Adran 9

- Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru–Cynllun Enfys
- Gweithgor Tai Gogledd Iwerddon – Consortiwm 'Creating Common Ground'

Fel rhan o'r cynllun Trawsnewid Cymunedau:

- Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Natur – Ailgylchu Cymunedol a Datblygu Economaidd
- 'Scottish Natural Heritage' – 'Fresh Futures' (Trawsnewid Eich Gofod)
- 'Forward Scotland'–Trawsnewid Gwastraff yn yr Alban
- Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru – Cronfa Ailgylchu 'Cleanstream' – Trawsnewid Gwastraff yng Nghymru
- Busnes yn y Gymuned (Gogledd Iwerddon) – Consortiwm Adnoddau Cymunedo

Fel rhan o'r rhaglen Cyfleoedd Newydd ar gyfer Iechyd:

- Sefydliad Prydeinig y Galon – Rhwydweithiau Cefnogi ar gyfer Methiant y Galon
- Sefydliad Prydeinig y Galon – Y rhaglen diffibriliwr genedlaethol
- Sefydliad Prydeinig y Galon – Rhaglen adsefydlu cardiaidd

Fel rhan o'r cynllun Cyfleoedd Newydd ar gyfer AG a Chwaraeon mewn ysgolion:

- Y Sefydliad Pêl-Droed - Datblygiad Cymunedol ar gyfer Ysgolion

Mae'r cynnig grant rhwng y Gronfa Cyfleoedd Newydd a'r Partneriaid Dyfarnu'n nodi cyfrifoldeb Prif Weithredwr y Partner Dyfarnu am sicrhau bod y systemau a weithredir i weinyddu ceisiadau am arian y Loteri, a phrosesu a monitro grantiau'r Loteri, yn dderbyniol ac yn addas i'r diben, a sicrhau y dosberthir arian y Loteri yn gywir a phriodol.

Stephen Dunmore Prif Weithredwr
11 Hydref 2004

Datganiad ar reolaeth fewnol

Cwmpas y cyfrifoldeb

Fel Swyddog Cyfrifo, rwyf yn gyfrifol am gynnal system reolaeth fewnol sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion y Gronfa Cyfleoedd Newydd ac, ar yr un pryd:

- Diogelu'r asedau a'r cronfeydd cyhoeddus yr wyf yn bersonol gyfrifol amdanynt yn unol â'r cyfrifoldebau a bennwyd trwy Safonau Cyfrifo'r Llywodraeth
- Sicrhau cydymffurfiad â gofynion Datganiad Rheoli'r Gronfa Cyfleoedd Newydd, y cyfarwyddiadau ariannol a'r Datganiad Gofynion Ariannol .

Diben y system rheolaeth fewnol

Diben y system rheolaeth fewnol yw rheoli i lefel resymol yn hytrach na dileu pob risg o fethu â sicrhau y caiff yr amcanion a'r cyfarwyddiadau polisi eu cyflawni; felly, dim ond sicrwydd rhesymol o effeithiolrwydd y gellir ei gynnig, ac nid sicrwydd diamod. Seilir system o reolaeth fewnol ar broses barhaus a gynlluniwyd i nodi a blaenoriaethu'r risgiau a allai godi wrth gyflawni cyfarwyddiadau polisi a nodau'r Gronfa Cyfleoedd Newydd, gan werthuso'r tebygolrwydd o wireddu'r risgiau hynny a'r effaith pe baent yn cael eu gwireddu. Mae'r broses hon wedi cael ei gweithredu drwy gydol y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2004 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad blynyddol a'r cyfrifon, ac mae'n cyd-fynd â chanllawiau'r Trysorlys.

Y gallu i drin risg

Mae'r Bwrdd wedi cymeradwyo polisi rheoli risg sy'n sefydlu'r Uwch-Dîm Rheoli fel Grŵp Rheoli Risg. Mae'r Grŵp Rheoli Risg yn gyfrifol am sefydlu archwaeth risg y Gronfa Cyfleoedd Newydd. Mae'r Uwch-Dîm Rheoli a'r Tîm Rheoli Estynedig wedi derbyn brîff ar reoli risg. Mae'r briff hwn yn datgan bod risg a rheoli risg yn rhan hanfodol o'u rôl, yn cynnwys ymarfer rheoli da a synnwyr cyffredin e.e. cynllunio, gosod amcanion, sefydlu rheolau ariannol a rheolau eraill digonol a monitro perfformiad. Mae'r Swyddog Risg a Chydymffurfiad yn cefnogi'r Grŵp Rheoli Risg a Rheolwyr y Gronfa Cyfleoedd Newydd ymhob agwedd ar reoli risg.

Fframwaith risg a rheoli

Yn dilyn gwaith blaenorol gan aelodau'r Bwrdd, y rheolwyr a'r staff, mae'r Gronfa Cyfleoedd Newydd wedi nodi'r risgiau penodol wrth gyflawni ei hamcanion. Aseswyd effaith bosibl pob risg, a'r tebygrwydd y byddant yn cael eu gwireddu, a phennwyd rheolau addas i liniaru'r risgiau hyn. Mae hyn wedi cael ei gofnodi yn y gofrestr o risgiau corfforaethol a adolygir ddwywaith y flwyddyn gan y Grŵp Rheoli Risg.

Ar hyn o bryd mae'r Gronfa Cyfleoedd Newydd yn uno gyda'r Gronfa Gymunedol i ffurfio dosbarthwr newydd ar gyfer y Loteri, sef y Gronfa Loteri Fawr. Mae'r broses uno wedi cael ei hadnabod fel risg allweddol ac mae fframweithiau rheoli wedi cael eu sefydlu i sicrhau bod y gwaith o integreiddio'r swyddogaethau'n cael ei reoli'n briodol. Mae cofrestr risg corfforaethol newydd yn cael ei ddatblygu ar gyfer y Gronfa Loteri Fawr. Bydd hyn yn cynnwys risgiau newydd, a'r rhai sy'n gyffredin i'r ddau sefydliad. Bydd aelodau'r Gronfa Loteri Fawr yn cymeradwyo'r gofrestr risgiau newydd.

Adolygu effeithiolrwydd

Fel Swyddog Cyfrifo, rwyf yn gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system o reolaeth fewnol. Seilir fy adolygiad ar waith yr archwilwyr mewnol, y rheolwyr gweithredol yn y Gronfa Cyfleoedd Newydd sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal a chadw'r fframwaith rheoli mewnol a'r sylwadau a wnaed gan yr archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli a'u hadroddiadau eraill. Rwyf wedi derbyn cyngor ynghylch oblygiadau canlyniad yr adolygiad o effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol gan Bwyllgor Cyllid ac Archwilio'r Gronfa Cyfleoedd Newydd ac, o 1 Mehefin 2004, gan Bwyllgor Archwilio a Risg y Gronfa Loteri Fawr, sy'n goruchwylio gwaith yr Archwilydd mewnol ac yn derbyn adroddiadau gan y Rheolwr Risg a Chydymffurfiad ar yr archwiliad allanol. Mae cynllun yn bodoli ar gyfer rhoi sylw i wendidau'r system a sicrhau gwelliannau parhaus iddi. Gwnaed gwaith rheoli priodol er mwyn ymateb i'r tri argymhelliad a godwyd yn llythyr rheoli'r Archwilydd allanol y llynedd.

Cynrychiolir prif elfennau'r system rheolaeth fewnol hon – yr amgylchedd rheoli – gan y canlynol:

- Uwch-Dîm Rheoli sy'n cyfarfod bob tair wythnos o leiaf er mwyn ystyried cynlluniau a gweithrediadau'r Gronfa Cyfleoedd Newydd a'r cydymffurfiad â'r Datganiad Rheoli
- Bwrdd sy'n cyfarfod bob deufis o leiaf er mwyn ystyried cyfeiriad strategol y Gronfa Cyfleoedd Newydd. Mae'r Bwrdd yn cynnwys Cadeirydd a 12 aelod anweithredol ac mae aelodau'r Uwch-Dîm Rheoli'n mynychu'r cyfarfodydd
- Cylch gorchwyl y Pwyllgor Cyllid ac Archwilio, y daeth y Pwyllgor Archwilio a Risg yn ei le o 1 Mehefin 2004 ymlaen, sy'n dweud ei bod yn ofynnol i'r Pwyllgor gymeradwyo'r rhaglen archwilio fewnol, cymeradwyo'r gofrestr risg ac archwilio canlyniad yr adroddiadau gan yr adrannau archwilio allanol. Mae Cadeirydd y Bwrdd yn adrodd yn ôl iddo ar faterion a drafodwyd gan y Pwyllgor.

Adran 9

- Rheoli pob ffurf ar risg busnes, fel y disgrifir uchod
- Adroddiadau rheoli perfformiad chwarterol i'r Uwch-Dîm Rheoli yn adrodd am gynnydd wrth gyflawni perfformiadau a chyrraedd targedau cyflwyno gwasanaeth. Ar y cyfan, mae'r targedau hyn wedi cael eu cyrraedd, fel y nodir yn yr Adroddiad Blynyddol. Os nad yw'r targedau wedi'u cyrraedd, gweithredir er mwyn gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd
- Ystod eang o bolisïau'n delio, ymhlith pethau eraill, â materion yn ymwneud â rheoli ym maes llywodraethu corfforaethol, cyfrifeg rheolaeth, adroddiadau ariannol, rheoli prosiectau, iechyd a diogelwch, hyfforddiant a datblygu, technoleg gwybodaeth a rheoli risg yn gyffredinol.

Yn ystod y flwyddyn ariannol, prynodd y Gronfa Cyfleoedd Newydd ei swyddogaeth archwilio mewnol gan 'PricewaterhouseCoopers'. Mae'n ofynnol iddynt weithredu yn unol â'r safonau a ddiffinnir yn Llawlyfr Archwilio Mewnol y Llywodraeth. Mae'r gwaith archwilio mewnol yn seiliedig ar y gofrestr risg gorfforaethol a dadansoddiad o'r risg y mae'r Gronfa Cyfleoedd Newydd yn ei wynebu. Seilir y cynlluniau archwilio mewnol blynyddol ar y dadansoddiad hwn. Cymeradwywyd yr adolygiad o'r risg a'r cynllun archwilio mewnol gan y Pwyllgor Cyllid ac Archwilio a'i gymeradwyo gennyf i. Mae'r adran archwilio fewnol yn cwrdd yn rheolaidd â mi ac yn darparu adroddiad ar y gweithgarwch archwilio mewnol yn y Gronfa Cyfleoedd Newydd ar fy nghyfer bob blwyddyn o leiaf. Mae'r adroddiad blynyddol yn cynnwys eu barn hwy ynghylch pa mor ddigonol ac effeithiol yw systemau'r Gronfa a adolygwyd ganddynt. Adolygwyd hyn gan y Pwyllgor Archwilio a Risg.

Cydymffurfiad

Mae'r Gronfa Cyfleoedd Newydd yn cadw Cofrestr o holl Ddiddordebau Aelodau'r Bwrdd a'r Pwyllgor a holl staff y Gronfa. Ceir proses ar gyfer delio gyda gwrthdaro rhwng diddordebau wrth wneud penderfyniadau mewn cyfarfodydd, a gweithdrefn ar gyfer atal unrhyw aelod o staff rhag asesu cais am grant gan sefydliad y maent yn gysylltiedig ag ef.

Deliwyd yn briodol gyda grantiau'r Loteri a gollwyd a lle oedd angen, rhoddwyd gwybod i'r Adran.

Yn fy marn i, mae'r Gronfa Cyfleoedd Newydd wedi gwneud trefniadau priodol er mwyn sicrhau cydymffurfiad â gofynion ein Datganiad Rheoli a'n Cyfarwyddiadau Polisi ac Ariannol.

Stephen Dunmore
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifo
y Gronfa Cyfleoedd Newydd
11 Hydref 2004

Tystysgrif ac adroddiad y Prif reolwr a'r Archwilydd Cyffredinol i'r Senedd-Dai a Senedd Yr Alban

Tystiaf trwy hyn fy mod wedi archwilio'r datganiadau ariannol ar dudalennau 60 i 79 dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol etc 1993 (fel y diwygiwyd gan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1998). Paratowyd y datganiadau ariannol hyn dan y confensiwn cost hanesyddol fel y'i haddaswyd gan y cam o ailbrisio asedau sefydlog penodol a'r polisïau cyfrifo a nodir ar dudalen 63.

Cyfrifoldebau'r Gronfa Cyfleoedd Newydd, y Prif Weithredwr a'r Archwilydd

Fel y disgrifiwyd ar dudalen 54-56, mae'r Gronfa Cyfleoedd Newydd a'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf y Loteri Genedlaethol etc 1993 (fel y diwygiwyd) a'r cyfarwyddiadau a gyhoeddwyd dan y Ddeddf honno gan yr Ysgrifennydd dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, gyda chaniatâd y Trysorlys, ac am sicrhau cysondeb yn y trafodion ariannol. Hefyd mae'r Gronfa Cyfleoedd Newydd a'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am baratoi'r Rhagair i'r Adroddiad Blynyddol, a'i gynnwys cyffredinol. Pennir fy nghyfrifoldebau i, fel archwilydd annibynnol, gan statud ac rwy'n cadw at safonau a chyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio a'r cyfarwyddyd moesegol sy'n berthnasol i'r proffesiwn archwilio.

Adroddaf fy marn ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg ac ynghylch eu priodolrwydd yn unol â Deddf y Loteri Genedlaethol etc 1993 (fel y diwygiwyd) a'r cyfarwyddiadau a wnaed dan y Ddeddf honno, a pha un ai yw'r gwariant a'r incwm, ymhob ystyr materol, wedi cael eu defnyddio at y dibenion y bwriadwyd iddynt gael eu defnyddio gan y Senedd, a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Adroddaf hefyd os nad yw'r Rhagair yn cyd-fynd â'r datganiadau ariannol yn fy marn i, os nad yw'r Gronfa Cyfleoedd Newydd wedi cadw cofnodion cyfrifo priodol neu os nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sy'n angenrheidiol ar gyfer fy archwiliad.

Darllenaf yr holl wybodaeth arall yn yr Adroddiad Blynyddol ac ystyriaf a yw'n cyd-fynd â'r datganiadau ariannol a archwiliwyd. Ystyriaf y goblygiadau ar gyfer fy nhystysgrif os byddaf yn dod yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysonderau sylfaenol gyda'r datganiadau ariannol.

Adolygaf a yw'r datganiad ar dudalennau 55 i 57 yn adlewyrchu cydymffurfiad y Gronfa Cyfleoedd Newydd â chyfarwyddyd y Trysorlys ynghylch y Datganiad ar Reolaeth Fewnol. Adroddaf os nad yw'n bodloni'r gofynion a nodwyd gan y Trysorlys, neu os yw'r datganiad yn gamarweiniol neu'n anghyson â'r wybodaeth arall rwyf yn ymwybodol ohoni yn sgil f'archwiliad o'r datganiadau ariannol. Nid yw'n ofynnol i mi ystyried, ac nid wyf wedi ystyried, pa un ai yw Datganiad y Swyddog Cyfrifo ar Reolaeth Fewnol yn ymdrin â phob risg a rheol. Nid oes raid i mi chwaith lunio barn am effeithiolrwydd gweithdrefnau rheoli corfforaethol y Gronfa Cyfleoedd Newydd neu ei gweithdrefnau risg a rheoli.

Sail y farn archwilio

Cynheliais f'archwiliad yn unol â Safonau Archwilio'r DU a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae archwiliad yn cynnwys craffu, ar sail prawf, ar dystiolaeth sy'n berthnasol i'r symiau, y datguddiadau a rheoleidd-dra'r trafodion ariannol a gynhwysir yn y datganiadau ariannol. Mae hefyd yn cynnwys asesiad o amcangyfrifon a barn y Gronfa Cyfleoedd Newydd a'r Prif Weithredwr wrth baratoi'r datganiadau ariannol, ac a yw'r polisïau cyfrifo'n briodol i amgylchiadau'r Gronfa Cyfleoedd Newydd, ac a ydynt yn cael eu cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol.

Adran 9

Cynlluniais a chynheliais f'archwiliad er mwyn cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau a oedd yn angenrheidiol yn fy nhyb i er mwyn darparu tystiolaeth ddigonol i mi allu rhoi sicrwydd rhesymol nad yw'r datganiadau ariannol yn cynnwys unrhyw gamddatganiad sylweddol, boed drwy gamgymeriad, twyll neu unrhyw afreoleidd-dra arall ac, ymhob cyswllt sylfaenol, bod y gwariant a'r incwm wedi cael eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Wrth ffurfio fy marn, rwyf hefyd wedi gwerthuso pa mor ddigonol y cyflwynwyd yr wybodaeth yn y datganiadau ariannol.

Rhagdaliadau i Bartneriaid

Mae'r polisi cyfrifo a ddisgrifiwyd yn Nodyn 1 y cyfrifon yn adlewyrchu sut y dosberthir arian y loteri drwy rai partneriaid penodol dan gynlluniau dirprwyo amrywiol. Defnyddiwyd yr arian a dalwyd ymlaen llaw i'r partneriaid hyn naill ai i dalu ymrwymiadau grant neu fe'i cadwyd fel arian mewn llaw, fel y nodir yn Nodyn 9 y cyfrifon. Daw'r cyfanswm a gofnodir fel cyfanswm a ymrwymwyd yn y cyfrif incwm a gwariant, sy'n ymwneud â'r cynllun hyfforddiant TGCh ar gyfer athrawon a llyfrgellwyr ysgol, sef tua £7,458,000 (2002/2003 - £23,330,000), o'r adroddiadau diweddaraf sydd ar gael wedi'u harchwilio, ac mae'r hynaf yn dyddio'n ôl ddwy flynedd ariannol.

Daw ffigwr y flwyddyn ariannol flaenorol o amcangyfrif ystadegol sy'n seiliedig ar adroddiadau interim a heb eu harchwilio a gafwyd gan 65 y cant o bartneriaid y Gronfa yn y cynllun hwn. Bydd adroddiadau sydd wedi'u harchwilio mewn perthynas â defnyddio a chofnodi'r gwariant yn 2003/2004 yn cael eu cyflwyno i'r Gronfa Cyfleoedd Newydd erbyn 31 Rhagfyr 2004, yn arwyddocaol ar ôl llofnodi'r cyfrifon hyn. Bydd unrhyw addasiadau angenrheidiol yn cael eu hadlewyrchu yng nghyfrifon y flwyddyn ganlynol. Tynnaf sylw at y sail gyfrifo hon heb addasu fy marn.

Barn

Yn fy marn i:

1 Mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Gronfa Cyfleoedd Newydd ar 31 Mawrth 2004 ac o'r diffyg, cyfanswm yr enillion a'r colledion a'r llif arian ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny ac maent wedi'u paratoi yn unol â Deddf y Loteri Genedlaethol etc 1993 (fel y diwygiwyd gan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1998) a'r cyfarwyddiadau a wnaed dan y Ddeddf honno gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon

1 Mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Gronfa Cyfleoedd Newydd ar 31 Mawrth 2004 ac o'r diffyg, cyfanswm yr enillion a'r colledion a'r llif arian ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny ac maent wedi'u paratoi yn unol â Deddf y Loteri Genedlaethol etc 1993 (fel y diwygiwyd gan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1998) a'r cyfarwyddiadau a wnaed dan y Ddeddf honno gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon; ac

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud am y datganiadau ariannol hyn.

John Bourn
Prif Reolwr ac Archwilydd Cyffredinol
Dyddiad: 14 Hydref 2004
National Audit Office
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria
Llundain SW1W 9SP

Cyfrif incwm a gwariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2004

	Nodyn	Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2004 £'000	Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2003 £'000
Incwm			
Elw o'r Loteri Genedlaethol		433,023	458,948
Incwm Buddsoddi o Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol		29,029	53,325
Gostyngiad / (Cynnydd) ar golled wrth ailbrisio buddsoddiadau		(4,612)	574
Llog banc derbyniadwy		690	739
Adfer grantiau		4,621	2,310
Incwm Arall		236	139
Cyfanswm yr Incwm		462,987	516,035
Gwariant			
Cefnogi mentrau			
Yr ymrwymiadau grant a wnaed	12	633,984	636,308
Llai ymrwymiadau di-rym neu ddiddymedig	12	(39,929)	(18,747)
		594,055	617,561
Gwariant uniongyrchol i gefnogi'r cynlluniau	2	1,596	1,193
Gwaddol Cenedlaethol ar gyfer Gwyddoniaeth, Technoleg a'r Celfyddydau	10	-	95,000
		595,651	713,754
Costau Gweinyddu			
Costau cyflog gweithwyr	3	11,597	9,769
Costau gweithredu eraill	4	20,233	19,024
		31,830	28,793
Cyfanswm y Gwariant		627,481	742,547
Diffyg cyn trethiant		(164,494)	(226,512)
Treth	7	(211)	(201)
Diffyg ar gyfer y cyfnod		(164,705)	(226,713)
Incwm a Gadwyd			
Dygwyd ymlaen ar 1 Ebrill 2003		(188,772)	37,941
Diffyg ar gyfer y cyfnod		(164,705)	(226,713)
Incwm a Gadwyd hyd at 31 Mawrth 2004		(353,477)	(188,772)

Nid oes gan y Gronfa Cyfleoedd Newydd unrhyw enillion na cholledion cydnabyddedig ac eithrio'r rhai uchod ac, o ganlyniad, ni chyflwynwyd unrhyw ddatganiad ar wahân o gyfanswm yr enillion a'r colledion cydnabyddedig. Nid oes unrhyw weithgareddau wedi'u terfynu.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 64 i 83 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Mantolen
Fel ar 31 Mawrth 2004

	Nodyn	31 Mawrth 2004 £'000	31 Mawrth 2003 £'000
Asedau Sefydlog			
Asedau sefydlog diriaethol	8	3,181	4,003
Asedau Cyfredol			
Dyledwyr a rhagdaliadau	9	27,212	66,000
Arian yn y banc ac mewn llaw		1,775	686
Balans buddsoddi yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol (CDdLG)	10	737,276	877,836
		766,263	944,522
Credydwyr : symiau'n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn			
Credydwyr	11	(9,189)	(3,977)
Grantiau a ymrwymwyd ar gyfer taliad	12	(485,121)	(553,736)
		(494,310)	(557,713)
Asedau cyfredol net		271,953	386,809
Cyfanswm yr asedau llai cyfrifoldebau cyfredol		275,134	390,812
Credydwyr : symiau'n dod yn ddyledus ar ôl blwyddyn			
Credydwyr	11	(502)	(893)
Grantiau a ymrwymwyd ar gyfer taliad	12	(628,109)	(578,691)
		(628,611)	(579,584)
Cyfanswm net (cyfrifoldebau)		(353,477)	(188,772)
Cynrychiolwyd gan:			
Incwm a Gadwyd		(353,477)	(188,772)

Arwyddwyd ar ran Fwrdd y Gronfa Cyfleoedd Newydd, a gymeradwyodd y cyfrifon blynyddol ar 11 Hydref 2004.

Stephen Dunmore
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifo'r Gronfa Cyfleoedd Newydd

Sir Clive Booth
Cadeirydd y Gronfa Cyfleoedd Newydd

Mae'r nodiadau ar dudalennau 64 i 83 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Datganiad llif arian
Hyd at 31 Mawrth 2004

	Nodyn	Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2004 £'000	Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2003 £'000
Gweithgareddau gweithredol			
Yr arian a dynnwyd i lawr o Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol		598,000	462,000
Adfer grantiau a llif arian o ffynonellau eraill		4,558	2,189
Taliad i'r Gwaddol Cenedlaethol ar gyfer Gwyddoniaeth, Technoleg a'r Celfyddydau		-	(95,000)
Taliadau i gyflenwyr		(16,513)	(20,466)
Taliadau i ac ar ran gweithwyr		(11,240)	(9,747)
Taliadau i'r rhai sy'n derbyn grantiau		(614,823)	(347,143)
Arian a dalwyd ac a gadwyd gan drydydd person		41,122	7,324
Llif arian net o weithgareddau gweithredu	16	1,104	(843)
Adroddiadau ar fuddsoddi a gwasanaethu cyllid			
Llog banc a dderbyniwyd		702	721
Gwariant cyfalaf			
Taliadau i sicrhau asedau sefydlog diriaethol		(519)	(1,260)
Gwerthu asedau sefydlog diriaethol		7	705
		1,294	(677)
Trethiant			
Treth a dalwyd ar y llog a dderbyniwyd		(205)	(140)
Cynnydd / (Gostyngiad) yn yr arian parod		1,089	(817)
Newid yn y cyllid yn sgil llif arian			
Arian fel ar 31 Mawrth 2004		1,775	686
Llai arian ar 1 Ebrill 2003		(686)	(1,503)
Symudiad		1,089	(817)

Mae'r nodiadau ar dudalennau 64 i 83 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Nodiadau'r cyfrifon

1. Datganiad o'r polisïau cyfrifo

1.1 Confensiwn cyfrifo

Paratowyd y cyfrifon hyn dan y confensiwn cost hanesyddol a addaswyd i roi lle i ailbrisio'r asedau sefydlog yn ôl eu gwerth i'r busnes drwy gyfeirio at eu cost bresennol. Paratowyd y cyfrifon ar ffurf a nodwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, gyda chaniatâd y Trysorlys yn unol ag Adran 43D(2) o Ddeddf y Loteri Genedlaethol etc 1993 (fel y diwygiwyd gan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1998).* Heb gyfyngu ar yr wybodaeth a roddir, mae'r cyfrifon yn bodloni gofynion cyfrifo a datgelu'r Ddeddf Gwmnïau a'r Safonau Cyfrifo a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio o ran eu bod yn briodol.

1.2 Busnes Gweithredol

Paratowyd y cyfrifon blynyddol ar sail busnes gweithredol.

1.3 Cronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol

Mae'r balans yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol (CDdLG) dan stiwardiaeth yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Er hynny, mae'r gyfran o'r balans hwn y gellir ei phriodoli i'r Gronfa Cyfleoedd Newydd fel y dangosir yn y cyfrifon ac, ar ddyddiad y Fantolen, mae wedi'i ardystio gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon fel arian sydd ar gael ar gyfer ei ddosbarthu gan y Gronfa Cyfleoedd Newydd mewn perthynas â'r ymrwymiadau presennol a'r ymrwymiadau yn y dyfodol.

Nod y Gronfa Cyfleoedd Newydd yw gostwng y balans yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol i £240m cyn gynted ag y bo modd, ar yr amod bod y Gronfa Cyfleoedd Newydd yn parhau i gynnig sicrwydd digonol na fydd hyn yn amharu ar yr ymrwymiad presennol nac yn cyfyngu'n afresymol ar ei allu i wneud ymrwymiadau yn y dyfodol, yn unol â'r Cyfarwyddiadau Polisi.

Mae'r Gronfa Cyfleoedd Newydd wedi cytuno ar y targedau a ganlyn –

1 Erbyn 31 Mawrth 2004, amcanu i'r balans yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol fod yn £736 miliwn

1 Erbyn 31 Mawrth 2005, amcanu i'r balans yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol fod yn £580 miliwn

1 Erbyn 31 Mawrth 2006, amcanu i'r balans yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol fod yn £308 miliwn.

Seilir y targedau hyn ar y rhagamcaniadau incwm a ddarparwyd gan yr Adran Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ac maent yn caniatáu ar gyfer effaith y Loteri Olympaidd arfaethedig ac yn adlewyrchu'r gwariant ar Gyfarwyddiadau Polisi presennol.

1.4 Asedau sefydlog

Mae'r asedau sefydlog yn cael eu troi'n gyfalaf yn y Fantolen ar sail cost, ac eithrio'r eitemau'n costio llai na £2,000, sy'n cael eu dileu i'r Cyfrif Incwm a Gwariant ym mlwyddyn y prynu.

Darperir dibrisiant yn unol â'r cyfraddau a gyfrifwyd i ddileu prisiad yr asedau ar sail llinell wastad yn ystod yr amcangyfrif o'u hoes ddefnyddiol, fel a ganlyn:

Gwelliannau prydles	Yn ystod oes y brydles (6 i 20 mlynedd)
Systemau grant	3 blynedd
Offer, dodrefn a ffitiadau swyddfa	3 blynedd
Offer TG	3 blynedd
Asedau wrth ddatblygu	Nid yw dibrisiant yn rhan o'r swm

Ail-brisir asedau sefydlog i adlewyrchu eu gwerth i'r busnes drwy gyfeirio at eu cost bresennol.

1.5 Cronfa pensiwn

Mae'r gweithwyr yn elwa o ddarpariaethau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PGPGS) sy'n gynllun manteision pendant heb ei gyllido gan sawl cyflogwr. Er mai cynllun manteision pendant yw'r Cynllun, cyfrifoldeb y PGPGS yw talu'r manteision yn y dyfodol. Mae'r Gronfa Cyfleoedd Newydd yn talu ffi am bob cyflogai a gyfrifir ar sail groniadol. Darperir manteision pensiwn drwy gyfrwng PGPGS. O 1 Hydref 2002, gall staff sy'n aelodau o'r cynllun fod yn perthyn i un allan o dri chynllun manteision statudol gyda'r 'cyflog terfynol' wedi'i bennu (clasurol, premiwm a chlasurol plws). Gall aelodau newydd wedi 1 Hydref 2002 ddewis rhwng aelodaeth o'r cynllun premiwm neu ymuno â threfniant safonol gyda'r cyfranddeiliad yn 'prynu arian' a chyda chyfraniad sylweddol gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn partneriaeth). Gwelir y gwahaniaethau rhwng y cynlluniau yn y wefan, www.civilservice-pensions.gov.uk.

1.6 Gweithredu prydlesau

Mae costau gweithredu prydlesau a gedwir gan y Gronfa Cyfleoedd Newydd yn cael eu talu gan y Cyfrif Incwm a Gwariant yn ystod y cyfnod y maent yn berthnasol iddo. Rhennir manteision y cyfnodau rhydd o rent ar brydlesau rhwng y cyfnod hyd at yr adolygiad cyntaf o'r rhent ar sail llinell wastad.

1.7 Gwariant ar gynlluniau

Mae Deddf y Loteri Genedlaethol etc 1993 yn darparu ar gyfer y Gronfa Cyfleoedd Newydd er mwyn gwneud grantiau i gyllido neu i helpu gyda chyllido prosiectau ac i wneud neu lunio trefniadau sy'n amcanu at arwain at gynlluniau sy'n berthnasol i iechyd, addysg neu'r amgylchedd, fel y nodwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

Cynigion ac ymrwymiadau grant

Mae'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan yr Adran Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn datgan ei bod yn ofynnol gwahaniaethu rhwng ymrwymiadau meddal ac ymrwymiadau caled.

Diffinnir ymrwymiadau caled fel y swm o grant sy'n daladwy drwy gyfnod y cynllun y mae'r Gronfa Cyfleoedd Newydd wedi llunio cytundeb ysgrifenedig ar ei gyfer gyda'r ymgeisydd. Mae'r ymrwymiadau caled yn dod o'r Cyfrif Incwm a Gwariant yn ystod y flwyddyn yr arwyddir y cytundeb ynddi. Dangosir yr Ymrwymiadau Caled ar y Fantolen fel credydwr, ac mae'r balans yn cael ei ostwng wrth i daliadau gael eu rhyddhau i dderbynwyr y grantiau.

Diffinnir ymrwymiadau meddal fel cytundeb mewn egwyddor gan y Gronfa Cyfleoedd Newydd i gyllido cynllun a chynnig o grant a wneir i ymgeisydd, ond nid yw'r ymgeisydd wedi'i dderbyn yn ffurfiol eto. Dangosir y rhain fel Nodyn gyda'r cyfrifon ond nid ydynt yn cael eu trin fel rhan o'r Cyfrif Incwm a Gwariant.

Gwariant uniongyrchol ar gynlluniau

Mae'r Gronfa Cyfleoedd Newydd yn cofnodi fel gwariant uniongyrchol ar gynlluniau'r costau a dalwyd wrth wneud cynlluniau'n fwy effeithiol, yn unol â Chyfarwyddiadau Polisi Adran 43, er enghraifft, darparu strwythurau cefnogi a sicrhau ansawdd er budd uniongyrchol i'r rhai sy'n derbyn y grant. .

1.8 Rheoli grantiau – partneriaid dirprwyol

Mae'r Gronfa Cyfleoedd Newydd wedi llunio cytundebau gyda nifer o gyrff dirprwyol er mwyn cynnal y prosesau rheoli grant a nodwyd. Cofnodir y cyllid a roddir ymlaen llaw i bartneriaid dirprwyol er mwyn talu ymrwymiadau caled fel dyledwr, nes bod y Gronfa Cyfleoedd Newydd yn derbyn cadarnhad bod ymrwymiadau grant wedi cael eu talu.

Nodiadau'r cyfrifon

Dan amodau'r cynllun TGCh ar gyfer Athrawon a Llyfrgellwyr Ysgolion, gweinyddir y gwaith o dderbyn y cynigion grant yn ffurfiol a thaliadau'r ymrwymiadau grant ar ran y Gronfa Cyfleoedd Newydd gan Awdurdodau Addysg Lleol yng Nghymru a Lloegr, Awdurdodau Addysg yn yr Alban a'r Byrddau Addysg a Llyfrgelloedd yng Ngogledd Iwerddon. Daw'r ymrwymiadau caled a gofnodwyd yn y Cyfrif Incwm a Gwariant o'r adroddiadau hynny sydd wedi'u harchwilio a dderbyniwyd gan y cyrff gweinyddu hyn wrth baratoi'r cyfrifon hyn. Mae'n ofynnol i'r holl gyrff gweinyddu gyflwyno adroddiad wedi'i archwilio gan eu harchwilwyr allanol erbyn 31 Rhagfyr 2004. Bydd unrhyw addasiadau a gyfyd o adroddiadau a gyflwynir wedi paratoi'r cyfrifon hyn yn cael eu gwneud yng nghyfrifon blynyddol y flwyddyn nesaf.

1.9 Rheoli grantiau – cynlluniau ar y cyd

Os yw'r Gronfa Cyfleoedd Newydd wedi llunio cynllun ar y cyd, fel y diffinnir yn Neddf y Loteri Genedlaethol 1998, mae'r ymrwymiadau caled a wneir mewn perthynas â'r cynllun ar y cyd yn cael eu cyfrifo ar sail cyfran y Gronfa Cyfleoedd Newydd yn y cynllun. Cofnodir y cyllid a roddir ymlaen llaw i'r cynllun ar y cyd at ddiben talu ymrwymiadau caled fel dyledwr nes bod y Gronfa Cyfleoedd Newydd yn derbyn cadarnhad bod yr ymrwymiadau grant wedi cael eu bodloni. Cynhwysir y costau gweinyddu yn y Cyfrif Incwm a Gwariant yn unol â'r swm a gyfrifir i'r Gronfa Cyfleoedd Newydd.

1.10 Clustnodi incwm a chostau

Clustnodir incwm i bob rhaglen i gyfateb â chostau 'blwyddyn' y rhaglen honno. Bydd incwm nad yw'n cael ei neilltuo yn ystod y flwyddyn gyfredol yn cael ei gynnwys yng nghostau'r dyfodol mewn blynyddoedd i ddod. Mae Cyfarwyddiadau Polisi'r Gronfa Cyfleoedd Newydd yn datgan cyfanswm yr incwm sydd i'w glustnodi ar gyfer pob rhaglen.

Lle bo modd, mae'r costau'n cael eu cyfrif yn uniongyrchol i'r rhaglen berthnasol. Mae costau uniongyrchol y staff yn berthnasol i gostau'r staff sy'n asesu ac yn monitro ceisiadau am grant. Mae costau heb eu neilltuo'n cael eu rhannu i bob rhaglen unigol, yn unol â gwerth y rhaglen honno.

1.11 Cost amcanol y cyfalaf

O 1 Ebrill 2002 ymlaen, penderfynodd Trysorlys Ei Mawrhydi ddileu'r galw am i gost amcanol unrhyw swm cyfalaf gael ei chyfrif ar asedau a gyllidwyd gan y Loteri.

2. Gwariant uniongyrchol i gefnogi cynlluniau

Datgelir costau am wariant er budd uniongyrchol derbynwyr trydydd parti ar wahân.

	Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2004 £'000	Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2003 £'000
Rheoli ansawdd hyfforddiant allanol	49	660
Cefnogaeth ymgynghori a ddarperir yn uniongyrchol i ymgeiswyr am grantiau a'r rhai sy'n eu derbyn	1,547	533
	1,596	1,193

Y gwariant uniongyrchol i gefnogi mentrau a ddadansoddir gan bob rhaglen wariant yw:

Canolfannau byw'n iach	-	39
TGCh ar gyfer athrawon a llyfrgellwyr ysgolion	49	660
Cyfleoedd newydd ar gyfer AG a Chwaraeon	1,507	448
Dysgu y Tu Allan i Oriau Ysgol	40	46
	1,596	1,193

Nodiadau'r cyfrifon

3. Nifer a chostau'r staff

Roedd cyfanswm cyflogau'r staff, yn cynnwys aelodau'r Bwrdd, fel a ganlyn:

	Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2004 £'000	Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2003 £'000
Cyflogau a thaliadau	9,608	8,166
Costau nawdd cymdeithasol	734	527
Costau pensiwn	1,255	1,076
	11,597	9,769

Fel ar 31 Mawrth 2004, roedd 332 aelod o staff yn cael eu cyflogi (2002/2003 - 300). Roedd cyfartaledd nifer y gweithwyr (ac eithrio'r staff dros dro) a oedd yn gweithio i'r Gronfa Cyfleoedd Newydd yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

	Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2004 Nifer y gweithwyr ar gyfartaledd	Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2003 Nifer y gweithwyr ar gyfartaledd
Swyddfa'r Prif Weithredwr	11	8
Cyllid a Gwasanaethau Chorfforaethol	29	26
Cysylltiadau Polisi ac Allanol	60	60
Gweithrediadau	156	167
Swyddfeydd Gwledig	67	26
Y Tîm Uno	2	-
	325	287

Roedd cyflog a hawliau pensiwn Uwch-Dîm Rheoli'r Gronfa Cyfleoedd Newydd fel a ganlyn;;

ffigyrau cymharol 2003 mewn cromfachau	Cyflog, yn cynnwys bonws perfformiad, fel ar 31 Mawrth 2004	Gwir gynnydd mewn pensiwn yn 60	Cyfanswm y pensiwn 60 fel ar 31 Mawrth 2004	Gwerth trosglwyddo cyfystyr ag arian parod (GTCAP)	Gwir gynnydd yn y GTCAP wedi addasu ar gyfer chwyddiant a newidiadau yn ffactorau buddsoddi'r farchnad
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Stephen Dunmore (Prif Weithredwr)	90 – 95 (100 – 105)	5 –7.5 plws15– 17 cyfandaliad	40 – 45 plws 120 – 125 cyfandaliad	711 (602)	75
Nicholas Allaway (Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol) hyd at 4 Ionawr	50 – 55 (70 –75)	0 – 2.5 plws 0 – 2.5 cyfandaliad	15 – 20 plws 55 – 60 cyfandaliad	242 (223)	9
Ceri Doyle (Cyfarwyddwr, Cymru) 1 Rhagfyr 2003	15 – 20 (0)	0 – 2.5 plws 0 – 2.5 cyfandaliad	5 – 10 plus 0 – 5 cyfandaliad	58 (0)	3
Beverly Francis (Cyfarwyddwr, Yr Alban) o 1 Rhagfyr 2003 tan 29 Chwefror 2004	35 – 40 (0)	0 – 2.5 plws 0 – 2.5 cyfandaliad	5 – 10 plws 20 – 25 cyfandaliad	77 (0)	5
Peter Grant (Cyfarwyddwr Gweithrediadau)	75 – 80 (70 –75)	0 – 2.5	15 – 20	184 (161)	17
Adrienne Kelbie (Cyfarwyddwr, Yr Alban) o 1 Mawrth 2004	0 (0)	0	0	0 (0)	0
Gerald Oppenheim (Cyfarwyddwr, Cynllunio a Pherfformiad) o 1 Ionawr 2004	0 (0)	0	0	0 (0)	0
Vanessa Potter (Cyfarwyddwr, Cysylltiadau Polisi ac Allanol)	80 – 85 (75 – 80) cyfandaliad	0 – 2.5 plws 2.5 – 5	5 – 10 plws 20 – 25 cyfandaliad	79 (64)	11
Walter Rader (Cyfarwyddwr, Gogledd Iwerddon) o 1 Rhagfyr 2003	15 – 20 (0)	0 – 2.5 plws 0 – 2.5 cyfandaliad	5 – 10 plws 10 – 15 cyfandaliad	60 (0)	4

Nodiadau'r cyfrifon

O 1 Rhagfyr 2003 ymlaen, derbyniodd y Prif Weithredwr rôl Prif Weithredwr y Gronfa Gymunedol a'r Gronfa Cyfleoedd Newydd ar y cyd. Datgelir ei dâl am ei waith gyda'r rhan o'r cytundeb gwasanaethu gyda'r Gronfa Gymunedol yng nghyfrifon y sefydliad hwnnw. Seilir y datguddiadau hawl i bensiwn ar ei becyn cyflog cyflawn. Daw cytundeb y Prif Weithredwr i ben ddiwrnod wedi penodi Prif Weithredwr y Gronfa Loteri Fawr. Mae telerau ac amodau cyflogi safonol y Gronfa Cyfleoedd Newydd yn berthnasol i swydd y Prif Weithredwr.

Yn ystod y flwyddyn, penodwyd Cyfarwyddwyr i Uwch-Dîm Rheoli'r Gronfa Loteri Fawr, y tîm rheoli ar y cyd ar gyfer y Gronfa Gymunedol a'r Gronfa Cyfleoedd Newydd. Mae'r Cyfarwyddwyr a gyflogir gan y Gronfa Cyfleoedd Newydd ar gytundebau gwaith parhaol, ac mae hynny'n eu galluogi i ddarparu gwasanaethau i'r Gronfa Gymunedol. Felly, mae telerau ac amodau cyflogi safonol y Gronfa Cyfleoedd Newydd yn berthnasol iddynt.

Cyflogir Cyfarwyddwr yr Alban a'r Cyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad gan y Gronfa Gymunedol dan gytundebau sy'n eu galluogi i ddarparu gwasanaethau i'r Gronfa Cyfleoedd Newydd. Datgelir eu tâl yng nghyfrifon y sefydliad hwnnw.

Darperir manteision pensiwn drwy gyfrwng Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Gweler datguddiadau pensiwn pellach yn Nodyn 19. Mae Colofn 4 o'r tabl uchod yn dangos gwerth trosglwyddo cyfystyr ag arian parod (GTCAP) cronnol yr aelodau ar ddechrau ac ar ddiwedd y cyfnod adrodd yn ôl. Mae Colofn 5 yn adlewyrchu'r cynnydd yn y GTCAP a gyllidir yn effeithiol gan y cyflogwr. Mae'n rhoi ystyriaeth i'r cynnydd yn y pensiwn cronnol yn sgil chwyddiant, y cyfraniadau a dalwyd gan y gweithiwr (yn cynnwys gwerth unrhyw fanteision a drosglwyddwyd o gynllun pensiwn neu drefniant arall) ac yn defnyddio ffactorau prisio'r farchnad gyffredinol ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

GTCAP yw gwerth cyfalaf unrhyw fanteision cynllun pensiwn sydd wedi'u cronni gan aelod ar adeg benodol ac sydd wedi'u hasesu'n actiwaraidd. Y manteision a brisir yw manteision cronnol yr aelod ac unrhyw bensiwn gan briod sy'n daladwy o'r cynllun. Mae GTCAP yn daliad a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn i sicrhau manteision pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fo'r aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r manteision a gronnodd i'r hen gynllun. Mae'r ffigyrau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r manteision y mae'r unigolyn wedi'u cronni o ganlyniad i'w aelodaeth lawn o'r cynllun pensiwn, nid dim ond ei wasanaeth mewn rôl uwch, y mae'r datguddiadau'n berthnasol iddi. Mae ffigyrau GTCAP, a'r manylion pensiwn eraill o 2003/04, yn cynnwys gwerth unrhyw fanteision pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r unigolyn wedi'u trosglwyddo i'r trefniadau CSP ac y mae'r Bleidlais CS wedi derbyn taliad trosglwyddo cyfwerth â'r cyfrifoldebau pensiwn ychwanegol a amcanir. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fanteision pensiwn ychwanegol a gronnodd i'r aelod wedi iddo brynu blynyddoedd ychwanegol o wasanaeth pensiwn yn y cynllun gan dalu'r costau ei hun. Cyfrifir y GTCAP oddi mewn i'r canllawiau a nodir gan y Sefydliad a'r Gyfadran Actiwarïau.

Tâl aelodau'r Bwrdd

Penodiad rhan-amser am ddeuddydd yr wythnos yw swydd Cadeirydd Bwrdd y Gronfa Cyfleoedd Newydd. Gadawodd y Farwnes Jill Pitkeathley swydd Cadeirydd y Gronfa Cyfleoedd Newydd ar 31 Mai 2004. Penodwyd Syr Clive Booth yn Gadeirydd y Gronfa Loteri Fawr o 1 Mehefin 2004 ymlaen.

Derbyniodd y Cadeirydd dâl o £25,290 (2002 - £24,736). Mae gweddill aelodau'r Bwrdd yn derbyn ffi ddyddiol o £194 (2002 - £190) yn ogystal â'u costau wrth gyflawni unrhyw waith ar ran y Gronfa Cyfleoedd Newydd. Ni dderbyniodd unrhyw rai o aelodau'r Bwrdd gyfraniadau at eu pensiwn. Roedd cyfanswm y taliadau a wnaed i aelodau'r Bwrdd hyd at 31 Mawrth 2004 yn £71,054 (2002 - £82,605), wedi'i ddadansoddi fel a ganlyn:

	Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2004 £'000	Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2003 £'000
Jill Barrow	9.3	5.1
Yr Athro Eric Bolton	6.9	5.6
David Campbell	14.3	15.2
David Carrington	2.6	8.7
Tom Davies	5.4	6.1
Yr Athro Briedge Gadd	9.8	10.2
Yr Athro Siân Griffiths	1.8	6.2
Polly Hudson	2.8	3.3
Dugald Mackie	6.9	7.6
Yr Athro Allan Patmore	4.0	4.4
Barbara Stephens	2.7	3.0
Geoff Thompson	4.7	7.2

Nodiadau'r cyfrifon

4. Costau gweithredu eraill

Mae'r costau gweithredu eraill yn cynnwys:

	Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2004 £'000		Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2003 £'000	
Staff asiantaeth		529		435
Treuliau'r Bwrdd		13		11
Teithio a chostau				
Staff	525		491	
Aelodau'r Bwrdd	47	572	40	531
Ffioedd archwiliadau				
Archwiliad Allanol	33		33	
Archwiliad Mewnol	114	147	97	130
Costau cyflwyno grantiau		3,312		5,317
Gweithredu prydlesau				
Eiddo	3,465		3,582	
Offer	55	3,520	58	3,640
Dileu taliadau grant		-		400
Nodi asedau sefydlog		129		35
Dibrisiant				
Cost gyfredol	838		1,367	
Gostyngiad mewn gwerth	379	1,217	136	1,503
Costau eraill		10,794		7,022
		20,233		19,024

5. Cyfanswm y costau gweithredu

Y costau gweithredu a ddadansoddir gan bob rhaglen wariant yw:

	Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2004 £'000	Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2003 £'000
Canolfannau Byw'n Iach	3,007	3,080
Dysgu y Tu Allan i Oriau Ysgol	2,479	2,251
Gofal Plant y Tu Allan i Oriau Ysgol	2,895	2,507
Hyfforddiant TGCh ar gyfer Athrawon a Llyfrgellwyr Ysgol	1,677	1,590
Hyfforddiant TGCh ar gyfer Staff Llyfrgelloedd Cyhoeddus	226	262
Digido deunyddiau dysgu	700	698
Offer Canser	1,014	978
Mynediad Cymunedol i Ddysgu Gydol Oes	2,215	1,931
Meysydd Glas a Chymunedau Cynaliadwy	1,324	1,269
Cyfleoedd Newydd ar gyfer AG a Chwaraeon	8,226	6,487
Gweithgareddau ar gyfer Pobl Ifanc	625	536
Lleihau Baich Clefyd Coronaidd y Galon, Canser a Strôc	1,767	1,490
Gofal Lliniarol	934	811
Trawsnewid Cymunedau	1,314	1,400
Gofal Plant	1,379	1,556
Cynlluniau Grant ar Raddfa Fechan	1,605	1,504
Cyfran Deg	443	443
	31,830	28,793

6. Dangosydd perfformiad ariannol

Mae'r Gronfa Cyfleoedd Newydd yn gobeithio cadw'r costau gweithredu rhwng 5 a 7 y cant o'r incwm a dderbyniwyd yn ystod oes y Gronfa. Mae'n cyrraedd y targed hwn o hyd; mae'r costau gweithredu yn 5.2 y cant o'r incwm (2003/04 - 4.8 y cant). Y rheswm am y cynnydd yn y dangosydd hwn yw'r gostyngiad yn yr Incwm gan y Loteri am fod llai o docynnau'n cael eu gwerthu a llai o incwm buddsoddi, a chynnydd yn y costau sy'n gysylltiedig â chyflwyno'r rhaglenni grant presennol, yn arbennig Cyfleoedd Newydd ar gyfer AG a Chwaraeon mewn Ysgolion.

7. Treth gorfforaeth

Mae'r Gronfa Cyfleoedd Newydd yn talu treth gorfforaeth ar log banc a dderbynnir. Y dreth daladwy yw £210,818 (2002/2003 - £201,121). Nid yw'r arian a gedwir ac a fuddsoddir gan Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol ar ran y Gronfa Cyfleoedd Newydd yn drethadwy.

Nodiadau'r cyfrifon

8. Asedau sefydlog diriaethol

	Gwella prydlesau	TG dodrefn a	Offer, Grant ffitiadau swyddfa	Systemau	Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Cost gyfredol					
Ar 1 Ebrill 2003	2,422	164	73	2,327	4,986
Ychwanegiadau	220	17	-	294	531
Gwaredion	(205)	-	-	-	(205)
Gostyngiad mewn Gwerth	-	-	-	(379)	(379)
Ar 31 Mawrth 2004	2,437	181	73	2,242	4,933
Dibrisiant cyfredol					
Ar 1 Ebrill 2003	256	148	68	511	983
Ffi am y flwyddyn	182	17	4	635	838
Gwaredu	(69)	-	-	-	(69)
Ar 31 Mawrth 2004	369	165	72	1,146	1,752
Cost net gyfredol					
Ar 31 Mawrth 2004	2,068	16	1	1,096	3,181
Ar 31 Mawrth 2003	2,166	16	5	1,816	4,003

Mae'r gostyngiad yng ngwerth y Systemau Grant yn dangos ailbrisiad yr asedau hyn gan ddefnyddio'r mynegeion ONS ar gyfer offer cyfrifiadurol. Ni chafodd cost bresennol y categorïau eraill o asedau ei hystyried yn sylfaenol wahanol i'r gost hanesyddol.

9. Dyledwyr a rhagdaliadau

	Fel ar 31 Mawrth 2004 £'000	Fel ar 31 Mawrth 2003 £'000
Yn cael ei ddal gan bartneriaid dirprwyol ar gyfer talu grantiau a ddyfarnwyd	25,166	64,445
Arall	728	391
Rhagdaliadau	1,318	1,164
	27,212	66,000

Yn unol â pholisi cyfrifo'r Gronfa Cyfleoedd Newydd, ni fydd taliadau'r ymrwymiadau grant a weinyddir gan bartneriaid dirprwyol ar ran y Gronfa Cyfleoedd Newydd yn cael eu cofnodi nes bod y Gronfa Cyfleoedd Newydd wedi derbyn adroddiad wedi'i archwilio gan y cyrff hyn yn datgan swm y grant a dalwyd.

Mae'r balans sy'n cael ei ddal gan bartneriaid dirprwyol yn cynnwys £15,993,000 (2002 - £60,312,000) sy'n cael ei ddal gan Awdurdodau Addysg Lleol yng Nghymru a Lloegr, Awdurdodau Addysg yn yr Alban a Byrddau Addysg a Llyfrgell yng Ngogledd Iwerddon ar gyfer talu grantiau a ddyfernir dan y rhaglen TGCh ar gyfer Athrawon a Llyfrgellwyr Ysgol. Disgwylir adroddiadau wedi'u harchwilio gan y partneriaid dirprwyol hyn erbyn 31 Rhagfyr 2004.

Mae £40,030,000 o ddyledwr 2002/2003 Hyfforddiant TGCh ar gyfer Athrawon a Llyfrgellwyr Ysgol o £60,312,000 wedi cael ei gadarnhau yn awr fel taliadau grant, fel ar y dyddiad hwnnw. Adlewyrchir hyn yn Nodyn 12 y cyfrifon hyn.

10. Y balans yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol

	£'000
Cost fel ar 1 Ebrill 2003	882,377
Dosbarthiad o'r Loteri Genedlaethol	433,023
Yr incwm buddsoddi a enillwyd	29,029
Arian a dynnwyd i lawr	(598,000)
Cost fel ar 31 Mawrth 2004	746,429
Colled heb ei gwireddu ar fuddsoddiad	(9,153)
Gwerth y farchnad ar 31 Mawrth 2004	737,276

Fel ar 31 Mawrth 2004, gwerth marchnad y Gronfa Cyfleoedd Newydd, a oedd yn cael ei gadw gan Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol, oedd £737,275,837 (2002 - £877,835,830). .

Mae'r Gronfa Cyfleoedd Newydd yn derbyn cyfran o'r arian a delir gan Grŵp Camelot ccc i Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol ar ôl tynnu costau'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, er mwyn ymarfer ei swyddogaethau dan Ddeddf y Loteri, costau'r rheolydd (Comisiwn y Loteri Genedlaethol) a chostau'r rheolwr buddsoddi (Comisiynwyr y Ddyled Genedlaethol).

Nodiadau'r cyfrifon

11. Credydwyr : symiau'n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn

	Fel ar 31 Mawrth 2004 £'000	Fel ar 31 Mawrth 2003 £'000
Credydwyr masnach	2,784	1,176
Croniadau ac incwm gohiriedig	3,700	2,347
Arall	2,705	454
	9,189	3,977

Credydwyr : symiau'n dod yn ddyledus wedi mwy na blwyddyn

	Fel ar 31 Mawrth 2004 £'000	Fel ar 31 Mawrth 2003 £'000
Incwm gohiriedig	502	893

12. Ymrwymiadau caled

Gwneir y gwaith o weinyddu derbyn y cynigion grant yn ffurfiol ar gyfer y rhaglen hyfforddiant TGCh ar gyfer Athrawon a Llyfrgellwyr Ysgol gan Awdurdodau Addysg Lleol yng Nghymru a Lloegr, Awdurdodau Addysg yn yr Alban a'r Byrddau Addysg a Llyfrgelloedd yng Ngogledd Iwerddon. Mae'r byrddau gweinyddu'n darparu adroddiadau i'r Gronfa Cyfleoedd Newydd i ddangos swm yr ymrwymiadau newydd a addawyd yn ystod y flwyddyn. Nid oes raid archwilio'r adroddiadau hyn tan 31 Rhagfyr 2004. Mae'r Gronfa Cyfleoedd Newydd wedi cynnwys ymrwymiadau newydd a gofnodwyd ar adroddiadau wedi'u harchwilio a ddarparwyd gan y cyrff gweinyddu wrth baratoi'r cyfrifon hyn. Gweler Nodyn 1.8 y Polisi Cyfrifo.

Cofnodir yr addasiadau i ymrwymiadau'r blynyddoedd blaenorol sy'n codi o'r adroddiadau wedi'u harchwilio fel rhan o ffigyrau'r flwyddyn gyfredol, oddi mewn i ffigwr yr "ymrwymiadau grant a wnaed" yn y tabl isod. Ar ddyddiad arwyddo'r cyfrifon hyn, mae'r ymrwymiad grant gwirioneddol cronnol ar gyfer y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2003 yn £204 miliwn (yr amcan-ffigwr oedd £207 miliwn).

Cydnabyddir taliadau'r ymrwymiadau grant a weinyddir gan bartneriaid dirprwyol ar gyfer y rhaglen hyfforddiant TGCh ar gyfer Athrawon a Llyfrgellwyr Ysgol wedi derbyn yr adroddiadau wedi'u harchwilio. Mae'r taliadau grant a wnaed ar gyfer y rhaglen hon yn cynrychioli taliadau a hysbyswyd i'r Gronfa Cyfleoedd Newydd parthed blynyddoedd ariannol blaenorol (gweler Nodyn 9 y dyledwyr).

12. Ymrwymiadau caled

	Ymrwymiadau grant a ddygwyd ymlaen ar 1 Ebrill 2003	Ymrwymiadau grant a wnaed	Ymrwymiadau grant di-rym neu ddiddymedig	Ymrwymiadau grant a gyflawnwyd	Ymrwymiadau grant a ddygwyd ymlaen ar 31 Mawrth 2004
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Canolfannau Byw'n Iach	225,245	1,672	14	43,101	183,802
Dysgu y Tu Allan i Oriau Ysgol	119,662	10,915	2,703	49,926	77,948
Gofal Plant y Tu Allan i Oriau Ysgol a Gofal Plant	75,948	167,685	10,153	99,111	134,369
Hyfforddiant TGCh ar gyfer Athrawon a Llyfrgellwyr Ysgol	86,552	7,458	-	67,667	26,343
Hyfforddiant TGCh ar gyfer Staff Llyfrgelloedd Cyhoeddus	4,388	-	-	2,723	1,665
Digido deunyddiau dysgu	22,658	1,110	90	15,423	8,255
Offer Canser	44,664	922	189	22,763	22,634
Mynediad Cymunedol i Ddysgu Gydol Oes	124,555	5,613	3,650	80,508	46,010
Meysydd Glas a Chymunedau Cynaliadwy	92,440	865	3	44,755	48,547
Cyfleoedd Newydd ar gyfer AG a Chwaraeon	85,750	194,204	676	27,454	251,824
Gweithgareddau ar gyfer Pobl Ifanc	29,387	21,263	4,360	22,854	23,436
Lleihau Baich Clefyd Coronaidd y Galon, Canser a Strôc	93,362	88,478	5,336	47,486	129,018
Gofal Lliniarol	58,560	20,010	500	12,778	65,292
Trawsnewid Cymunedau	68,260	49,068	12,227	11,281	93,820
Cynlluniau Grant ar Raddfa Fechan	996	14,821	28	15,522	267
Cyfran Deg	-	49,900	-	49,900	-
	1,132,427	633,984	39,929	613,252	1,113,230

Mae balans yr ymrwymiadau caled ar ddiwedd y flwyddyn yn dangos y symiau dyledus i'r rhai sy'n derbyn y grantiau yn ystod y cyfnodau a ganlyn:

	Ar 31 Mawrth 2004 £'000	Ar 31 Mawrth 2003 £'000
Grantiau a ymrwymwyd ar gyfer taliadau o fewn blwyddyn	485,121	553,736
Grantiau a ymrwymwyd ar gyfer taliadau mewn mwy na blwyddyn	628,109	578,691
	1,113,230	1,132,427

Nodiadau'r cyfrifon

13. Ymrwymiadau meddal

Mae'r ymrwymiadau meddal yn gynigion grant sydd eto i'w derbyn yn ffurfiol yn ysgrifenedig gan yr ymgeisydd. O'r herwydd, nid yw'r cynigion hyn yn cael eu cydnabod fel ymrwymiadau ariannol yn y cyfrifon hyn.

	Cynigion a ddygwyd ymlaen ar 1 Ebrill 2003	Cynigion a wnaed	Cynigion di-rym neu ddiddymedi	Cynigion a wnaed wedi'u trosglwyddo'n ymrwymiadau caled	Cynigion a gariwyd ymlaen ar 31 Mawrth 2004
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Canolfannau Byw'n Iach	670	1,602	-	1,672	600
Dysgu y Tu Allan i Oriau Ysgol	2,783	8,132	-	10,915	-
Gofal Plant y Tu Allan i	12,917	161,272	1,804	167,685	4,700
Hyfforddiant TGCh ar gyfer Athrawon a Llyfrgellwyr Ysgol	13,800	-	-	7,458	6,342
Hyfforddiant TGCh ar gyfer Staff Llyfrgelloedd Cyhoeddus	-	-	-	-	-
Digido deunyddiau dysgu	271	839	-	1,110	-
Offer Canser	-	922	-	922	-
Mynediad Cymunedol i Ddysgu Gydol Oes	-	5,649	-	5,613	36
Meysydd Glas a Chymunedau Cynaliadwy	3	1,269	304	865	103
Cyfleoedd Newydd ar gyfer AG a Chwaraeon	25,052	179,193	669	194,204	9,372
Gweithgareddau ar gyfer Pobl Ifanc	-	21,263	-	21,263	-
Lleihau Baich Clefyd Coronaidd y Galon, Canser a Strôc	9,908	78,570	-	88,478	-
Gofal Lliniarol	10,617	9,393	-	20,010	-
Trawsnewid Cymunedau	59,360	21,406	-	49,068	31,698
Cynlluniau Grant ar Raddfa Fechan	-	14,821	-	14,821	-
Cyfran Deg	49,900	-	-	49,900	-
	185,281	504,331	2,777	633,984	52,851

Gweinyddir y gwaith o dderbyn y cynigion grant yn ffurfiol ar gyfer y rhaglen Hyfforddiant TGCh ar gyfer Athrawon a Llyfrgellwyr Ysgol gan Awdurdodau Addysg Lleol yng Nghymru a Lloegr, Awdurdodau Addysg yn yr Alban a'r Byrddau Addysg a Llyfrgelloedd yng Ngogledd Iwerddon. Mae ffigwr y cynigion a wnaed ar gyfer trosglwyddo i ymrwymiadau caled ar y cynllun hwn wedi'i ganfod o'r adroddiadau wedi'u harchwilio a dderbyniwyd gan y cyrff gweinyddu adeg paratoi'r cyfrifon hyn. Gweler Nodyn 1.8.

14. Cynlluniau ar y cyd

Yn rhan o'r ymrwymiadau caled ar gyfer y cynllun Cyfleoedd Newydd ar gyfer AG a Chwaraeon mae £200,000 o ymrwymiadau grant newydd a £12.0 miliwn o ymrwymiadau grant a gariwyd ymlaen ar 31 Mawrth, gan gynrychioli cyfraniad y Gronfa Cyfleoedd Newydd i'r grantiau a wnaed fel rhan o'r cynllun ar y cyd – Mannau ar gyfer Chwaraeon a'r Celfyddydau. Mae'r Gronfa Cyfleoedd Newydd wedi arwyddo Memorandwm Cytundeb gyda 'Sport England', Cyngor Celfyddydau Lloegr, yr Adran Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a'r Adran Addysg a Chyflogaeth i gyllido rhaglen ar gyfer darparu mannau ar gyfer chwaraeon a'r celfyddydau mewn ysgolion cynradd yn Lloegr. Bydd y Gronfa Cyfleoedd Newydd yn cyfrannu £25 miliwn at gyfanswm y cyllid o £130 miliwn. Gweinyddir y cynllun hwn gan 'Sport England' ar ran holl aelodau'r cytundeb.

Ceir adroddiad ariannol ar wahân ar gyfer y Rhaglen Mannau ar gyfer Chwaraeon a'r Celfyddydau ynghlwm wrth gyfrifon blynyddol 'Sport England' ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2004. Gellir cael copi o'r ddogfen hon gan 'Sport England', 3ydd Llawr Victoria House, Sgwâr Bloomsbury, Llundain WC1B 4SE.

Mae'r Gronfa Cyfleoedd Newydd wedi arwyddo Memorandwm Cytundeb gyda'r Gronfa Gymunedol, 'Sport England', Cyngor Celfyddydau Lloegr a Chronfa Dreftadaeth y Loteri i gyllido, o 1 Ebrill 2002 ymlaen, cronfa ar y cyd ar gyfer y rhaglen grantiau bychain. Yn rhan o'r ymrwymiadau caled ar gyfer y rhaglen grantiau bychain mae £11.4 miliwn o ymrwymiadau grant newydd a £57,000 o ymrwymiadau grant a gariwyd ymlaen ar 31 Mawrth, gan gynrychioli cyfraniad y Gronfa Cyfleoedd Newydd i'r cynllun Arian i Bawb, Lloegr, ar y cyd. Gweinyddir y cynllun hwn gan y Gronfa Gymunedol ar ran holl aelodau'r cytundeb.

15. Cyfran Deg

Yn 2002/03, lluniodd y Gronfa Cyfleoedd Newydd gytundeb grant gyda'r Rhwydwaith Sefydliadau Cymunedol i weinyddu gwaddol treuliadwy i ddarparu cyllid ar gyfer bodloni amcanion y Cyfarwyddiadau Polisi Cyfran Deg. Fis Awst 2003, talodd y Gronfa £50 miliwn i'r Ymddiriedolaeth Cyfran Deg a sefydlwyd gan y Rhwydwaith Sefydliadau Cymunedol.

Ar 31 Mawrth 2004 mae'r Rhwydwaith Sefydliadau Cymunedol wedi datgan bod balans yr Ymddiriedolaeth Cyfran Deg yn £49.0 miliwn a bod budd cyfalaf heb ei wireddu o £930,000 yn bodoli. Yn ystod y flwyddyn gyntaf hon mae'r gwariant yn adlewyrchu costau sefydlu a rheoli'r Rhwydwaith Sefydliadau Cymunedol a'r rheolwr buddsoddi a'r asiantau lleol sy'n rheoli'r rhaglen yn yr ardaloedd Cyfran Deg a dyfernir y grantiau cyntaf yn 2004/05. Mae cyfrifon yr Ymddiriedolaeth wedi'u harchwilio ar gael gan y Rhwydwaith Sefydliadau Cymunedol, Arena House, 66 – 68 Pentonville Road, Llundain N1 9HS.

Ceir gwybodaeth bellach am gynnydd y cynllun yn yr adroddiad blynyddol.

Nodiadau'r cyfrifon

16. Cysoni'r incwm a'r gwariant i'r mewnlif arian net o weithredu gweithgareddau

	Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2004 £'000	Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2003 £'000
Diffyg cyn treth	(164,494)	(226,512)
Dibrisiant yr asedau sefydlog	837	1,367
Colled ar werthu asedau sefydlog	129	35
Gostyngiad yng ngwerth yr asedau sefydlog	379	136
Incwm Llog	(702)	(721)
Costau net o weithredu gweithgareddau	(163,851)	(225,695)
Gostyngiad mewn dyledwyr	38,788	6,037
Gostyngiad/(Cynnydd) ym malans CDdLG	140,560	(50,847)
Cynnydd/(Gostyngiad) mewn credydwyr	4,804	(756)
(Gostyngiad)/Cynnydd yn y ddarpariaeth ar gyfer ymrwymiadau grant	(19,197)	270,418
Mewnlif / (all-lif) arian net o weithredu gweithgareddau	1,104	(843)

17. Risgiau ariannol

Mae'n ofynnol i'r Gronfa Cyfleoedd Newydd ddatgelu'r effaith y mae'r offerynnau ariannol wedi'u cael yn ystod y cyfnod ar greu neu newid y risgiau a wyneba'r Gronfa Cyfleoedd Newydd wrth gyflawni'r swyddogaeth hon.

Risgiau hylifedd

Yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2004, daeth £433 miliwn (94 y cant) o incwm y Gronfa Cyfleoedd Newydd o'r Loteri Genedlaethol. Daeth gweddill yr incwm o adenillion buddsoddi o'r balans a gadwyd gyda Chronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol, £24 miliwn (5 y cant), ac o log banc ac incwm arall, £6 miliwn (1 y cant).

Ar 31 Mawrth 2004, roedd gan y Gronfa Cyfleoedd Newydd gyfrifoldebau net o £354 miliwn ac ymrwymiadau meddal o £53 miliwn. Er bod y Gronfa Cyfleoedd Newydd wedi gwneud mwy o ymrwymiadau na'i asedau, nid yw'r Bwrdd yn credu bod perygl i'r Gronfa Cyfleoedd Newydd wynebu risgiau hylifedd sylweddol. O ystyried gofynion llif arian y dyfarniadau grant, sy'n cyllido prosiectau tair i bum mlynedd gan fwyaf, a'r incwm a ragdybir gan y Loteri Genedlaethol, maent yn fodlon bod gan y Gronfa Cyfleoedd Newydd ddigon o adnoddau hylifol i dalu am yr holl ymrwymiadau cyfredol ar gytundeb.

	£'000
Asedau hylifol ar 31 Mawrth 2004	
Gwerth buddsoddiadau CDdLG ar y farchnad	737,276
Arian parod	1,775
	739,051
Llif arian rhagdybiol yn ystod 2004/2005	
Incwm o'r Loteri Genedlaethol	443,370
Taliadau costau gweinyddol	(47,750)
Taliadau grant	(553,830)
Asedau hylifol rhagdybiol ar 31 Mawrth 2005	580,841

Seilir y rhagdybion incwm ar gyfarwyddyd a ddarperir gan yr Adran Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Seilir y taliadau grant rhagdybiol ar yr amcangyfrifon o'r proffiliau tynnu grant i lawr a gyflwynir gan dderbynwyr y grantiau adeg y dyfarniad.

Risgiau cyfraddau llog

Buddsoddir asedau ariannol y Gronfa Cyfleoedd Newydd yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol, sy'n buddsoddi mewn band cyfyng o asedau risg isel, fel bondiau ac arian parod y Llywodraeth. Nid oes gan y Bwrdd unrhyw reolaeth dros fuddsoddiad yr arian yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol. Ar ddyddiad y Fantolen, roedd gwerth marchnad y buddsoddiad yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol yn £737 miliwn. Yn ystod y flwyddyn roedd yr adenillion ar y buddsoddiadau hyn yn 3.1 y cant ar gyfartaledd. Cedwir yr arian parod sy'n cael ei dynnu i lawr o'r Gronfa Cyfleoedd Newydd i dalu ymrwymiadau grant a chostau gweithredu mewn cyfrifon banc, gyda chyfraddau llog amrywiol, a chafwyd cyfradd llog o 3% ar gyfartaledd yn ystod y flwyddyn. Roedd yr arian parod ar ddiwedd y flwyddyn yn £1.8 miliwn. Nid yw'r Bwrdd yn credu bod y Gronfa Cyfleoedd Newydd yn wynebu risgiau sylweddol mewn perthynas â chyfraddau llog.

Risgiau arian tramor

Nid yw'r Gronfa Cyfleoedd Newydd yn wynebu unrhyw risgiau o ran arian tramor.

18. Ymrwymiadau ariannol

Ymrwymiadau dan brydlesau gweithredu

Ar 31 Mawrth 2004, roedd gan y Gronfa Cyfleoedd Newydd yr ymrwymiadau blynyddol a ganlyn dan y prydlesau gweithredu.

	Offer swyddfa	Tir ac adeiladau	Fel ar 31 Mawrth 2004	Fel ar 31 Mawrth 2003
	£'000	£'000	£'000	£'000
Yn dod i ben mewn llai na blwyddyn	8	57	65	64
Yn dod i ben mewn 1-5 mlynedd	43	-	43	46
Yn dod i ben mewn mwy na 5 mlynedd	-	3,946	3,946	3,731
	51	4,003	4,054	3,841

Ymrwymiadau cyfalaf

	Fel ar 31 Mawrth 2004	Fel ar 31 Mawrth 2003
	£'000	£'000
Awdurdodwyd mewn perthynas â gwariant cyfalaf at ddibenion gweithredu, ond heb gontractio	-	125

Nodiadau'r cyfrifon

19. Cynllun pensiwn

Darperir manteision pensiwn drwy drefniadau Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. O 1 Hydref 2002 ymlaen, gall gweision sifil berthyn i un allan o dri chynllun "cyflog terfynol" statudol penodol (clasurol, premiwm neu glasurol plws). Nid yw'r cynlluniau'n cael eu cyllido, telir y costau gan arian a bennir gan y Senedd bob blwyddyn. Mae'r pensiynau a delir o dan y cynlluniau clasurol, premiwm a chlasurol plws yn cael eu cynyddu'n flynyddol yn unol â'r newidiadau i'r Mynegai Prisiau Adwerthu. Gall aelodau newydd o 1 Hydref 2002 ddewis rhwng aelodaeth bremiwm neu ymuno â threfniant cyfranddeiliad safonol drwy "brynu arian" gyda chyfraniad sylweddol gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn partneriaeth).

Pennir cyfraniadau'r gweithwyr ar gyfradd o 1.5% o'r enillion pensiynadwy ar gyfer y cynllun clasurol a 3.5% ar gyfer y cynlluniau premiwm a chlasurol plws. Mae manteision y cynllun clasurol yn cronni ar gyfradd o 1/80fed o'r cyflog pensiynadwy ar gyfer pob blwyddyn o'r gwasanaeth. Hefyd, mae cyfandaliad cyfwerth â phensiwn tair blynedd yn daladwy wrth ymddeol. Ar gyfer y cynllun premiwm, mae'r manteision yn cronni ar gyfradd o 1/60ain o'r enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i'r cynllun clasurol, ni cheir unrhyw gyfandaliad awtomatig (ond fe all yr aelodau ildio (cymudo) peth o'u pensiwn i ddarparu cyfandaliad). Amrywiad ar y cynllun premiwm yw'r cynllun clasurol plws yn ei hanfod, ond gyda manteision mewn perthynas â gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 wedi'u cyfrif yn fras yn unol â chlasurol.

Trefniant pensiwn cyfranddeiliad yw'r cyfrif pensiwn partneriaeth. Mae'r cyflogwr yn gwneud cyfraniad sylfaenol o rhwng 3% a 12.5% (gan ddibynnu ar oedran yr aelod) i bensiwn cyfranddeiliad a ddewisir gan y gweithiwr. Nid oes raid i'r gweithiwr gyfrannu ond os yw'n gwneud cyfraniadau, bydd y cyflogwr yn cyfateb y rhain hyd at uchafswm o 3% o'r cyflog pensiynadwy (yn ychwanegol at gyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae'r cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.8% pellach o gyflog pensiynadwy i dalu cost yr yswiriant risg a ddarperir yn ganolog (marw wrth wasanaethu ac ymddeol oherwydd salwch).

Ceir manylion pellach am drefniadau Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar y wefan, www.civilservice-pensions.gov.uk

Ar gyfer 2003, roedd cyfraniadau'r cyflogwyr o £1,255,346 yn daladwy i Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (2002 - £1,075,452) ar un o bedair cyfradd yn yr ystod o 12 - 18.5 y cant o'r cyflog pensiynadwy, yn seiliedig ar fandiau cyflog (fel y dangosir isod). Bydd y cyfraddau'n aros yr un fath ar gyfer y flwyddyn nesaf, gan ddibynnu ar ailbrisiad y bandiau cyflog. Dylid adolygu cyfraniadau'r cyflogwr bob pedair blynedd wedi gwerthusiad llawn o'r cynllun gan Actwari'r Llywodraeth. Mae'r cyfraddau cyfrannu'n adlewyrchu'r manteision fel maent wedi cronni, nid pan fo'r costau'n dod i rym, ac maent yn adlewyrchu profiadau'r cynllun yn y gorffennol.

Bandiau	Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2004
£17,000 a llai	12%
£17,001 - £35,000	13.5%
£35,001 - £60,500	16.5%
£60,500 a mwy	18.5%

Bandiau	Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2003
£16,500 a llai	12%
£16,501 - £34,000	13.5%
£34,001 to £59,000	16.5%
£59,001 a mwy	18.5%

20. Colledion ariannol a thaliadau arbennig

Yn ystod y flwyddyn dilewyd taliadau grant o £2,630 (2002 £399,669) i un deilydd grant am nad oedd hi'n bosib hawlio'r arian yn ôl.

21. Trafodion cyrff cysylltiedig

Corff cyhoeddus anadrannol a noddir gan yr Adran Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yw'r Gronfa Cyfleoedd Newydd. Credir bod yr Adran Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn gorff cysylltiedig. Yn ystod y flwyddyn, mae'r Gronfa Cyfleoedd Newydd wedi cael llawer o drafodion gyda'r Adran Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a chyrff eraill yr ystyrir bod yr Adran Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn noddwr iddynt: Cyngor Celfyddydau Lloegr, Llyfrgell Prydain, y Gronfa Gymunedol, 'English Heritage', yr Amgueddfa Fôr Genedlaethol, Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol ar Lannau Merswy, 'Sport England', Oriel Tate, 'Resource'.

Hefyd, mae'r Gronfa Cyfleoedd Newydd wedi gwneud nifer o drafodion sylfaenol gydag adrannau a chyrff y Llywodraeth sy'n ystyried adrannau eraill y Llywodraeth fel eu hadran noddi:

- Yr Asiantaeth Hyfforddi Athrawon a'r Asiantaeth Gyfathrebu a Thechnoleg Addysgol a noddir gan yr Adran Addysg a Sgiliau
- Yr Asiantaeth Gefn Gwlad ac 'English Nature' a noddir gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig
- Yr Asiantaeth Ddatblygu Iechyd a noddir gan yr Adran Iechyd
- Llyfrgell Genedlaethol Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru
- Yr Archifdy Gwladol.

Aelodau'r Bwrdd

Fel mater o bolisi a gweithdrefn, mae Aelodau'r Bwrdd yn cadw cofrestr o ddiddordebau sydd ar gael i'r cyhoedd, ac maent yn datgan unrhyw ddiddordeb uniongyrchol yn y ceisiadau am grant a wnaed i'r Gronfa Cyfleoedd Newydd a'r perthnasoedd masnachol gyda'r Gronfa Cyfleoedd Newydd. Maent yn eu heithrio eu hunain o'r prosesau gwerthuso, trafod a gwneud penderfyniadau perthnasol i'r grant oddi mewn i'r Gronfa Cyfleoedd Newydd. Cedwir yr un cofnodion ar gyfer aelodau'r staff

Roedd gan David Campbell, Aelod Bwrdd y Gronfa Cyfleoedd Newydd ar ran yr Alban, ddiddordeb yn y trafodion a ganlyn yn ystod y flwyddyn. Mae David Campbell yn meddu ar lai na 2 y cant o gyfalaf cyfran Procession Cyf. mewn ymddiriedolaeth annibynnol. Nid yw'n Gyfarwyddwr y cwmni ac nid yw'n chwarae unrhyw ran yn y gwaith o'i reoli. Hyd at 31 Awst 2003 roedd gan y Gronfa Cyfleoedd Newydd gytundeb uniongyrchol gyda Procession Cyf. ar gyfer trwydded gynnal a chadw ar gyfer y cais rheoli grantiau. Yn ystod y flwyddyn ariannol, mae taliadau neu atebolrwydd o £5,863 (2002/03 - £159,744) wedi codi mewn perthynas â'r gwasanaeth uchod. Nid oedd David Campbell yn rhan o'r penderfyniad i benodi Procession Cyf. nac o unrhyw faterion perthnasol i lunio neu weithredu'r cytundeb.

Hefyd, mae nifer o aelodau eraill y Bwrdd wedi datgan cysylltiad â chyrff cyhoeddus, gwirfoddol ac elusennol y mae gan y Gronfa Cyfleoedd Newydd ddiddordeb busnes heb fod yn ariannol ynddynt. .

Swyddogion

Mae Nicholas Allaway, Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol y Gronfa Cyfleoedd Newydd tan 4 Ionawr 2004, yn aelod o Bwyllgor elusen gofrestredig Cyfeillion Tŵr Eglwys Hornsey. Yn 2002/03, dyfarnodd BTCV grant o £9,901 i Gyfeillion Tŵr Eglwys Hornsey dan y cynllun 'People's Places'. Mae BTCV yn Bartner Dyfarnu. Nid oedd Nicholas Allaway yn rhan o'r penderfyniad i ddyfarnu'r grant.

Argraffwyd yn y DU ar gyfer y Llyfrfa ar ran reolwr Llyfrfa ei Mawrhydi
10/04, 173472

Cyhoeddwyd gan y Llyfrfa ac ar gael:
Ar y we
www.tso.co.uk/bookshop

Post, ffôn, ffacs ac e-bost
TSO
PO Box 29, Norwich NR3 1GN
Archebion ffôn/ymholiadau cyffredinol 0870 600 5522
Archebion ffacs 0870 600 5533
Archebu trwy Linell Frys y Senedd:
Lo-Call 0845 7 023474
E-bost bookorders@theso.co.uk
Ffôn testun 0870 240 3701

Siopau Llyfrau Y Llyfrfa
123 Kingsway, Llundain WC2B 6PQ
020 7242 6393 Ffacs 020 7242 6394
68-69 Bull Street, Birmingham B4 6AD
0121 236 9696 Ffacs 0121 236 9699
9-21 Princess Street, Manceinion M60 8AS
0161 834 7201 Ffacs 0161 833 0634
16 Arthur Street, Belfast BT1 4GD
028 9023 8451 Ffacs 028 9023 5401
18-19 Y Stryd Fawr, Caerdydd CF10 1PT
029 2039 5548 Ffacs 029 2038 4347
71 Lothian Road, Caeredin EH3 9AZ
0870 606 5566 Ffacs 0870 606 5588

Siôp Lyfrau'r Senedd
12 Bridge Street, Parliament Square
Llundain SW1A 2JX
Archebion ffôn/ymholiadau cyffredinol 020 7219 3890
Archebion ffacs 020 7219 3866

Asiantaethau Achrededig
(Gweler Yellow Pages)
a thrwy lyfrwerthwyr da